Y CRIW
Mentrus
Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

Cyfnod Allweddol 2

Gweithgaredd 1:
Beth ddylen ni ei wneud?

Amcan Dysgu

Creu syniadau am brosiect menter ar gyfer y gystadleuaeth genedlaethol.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Creadigedd

- Meddwl Dargyfeiriol – creu syniadau
- Adnabod a chreu cyfleoedd
- Arloesi

Trefniadaeth

- Gwneud Penderfyniadau

Gweithgareddau dysgu

Cyflwynwch y dosbarth i'r Criw Mentrus a'r gystadleuaeth entrepreneuriaeth genedlaethol.

Cyflwynwch her Y Criw Mentrus i'r disgyblion h.y. meddwl am brosiect menter ar gyfer y gystadleuaeth genedlaethol.

Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am gwestiynau fel:

- "Beth ydyn ni'n ei wneud yn dda?"
- "Sut allen ni ddefnyddio'n sgiliau?"
- "Pa ddigwyddiadau sydd ar y gweill yn yr ysgol?"
- "Pa gynnyrch/gwasanaeth allai ddiwallu angen yn yr ysgol neu'r gymuned?"
- "Pwy allai ein helpu?"

Gan weithio mewn grwpiau, gofynnwch i'r disgyblion feddwl am syniadau am gynnyrch neu wasanaeth dosbarth a'u blaenoriaethu.

Bydd y grwpiau'n esbonio eu dewisiadau gyda'r rhesymau i'r dosbarth. Cyfle am werthuso gan gymheiriaid.

Gofynnwch i'r dosbarth bleidleisio i wneud cyd-benderfyniad ar y syniad menter gorau.

Gweithgaredd 1:
Beth ddylen ni ei wneud?

Cyfnod Allweddol 2

Canlyniad dysgu

Bydd y disgyblion yn creu syniadau dychmygus ac yn dechrau nodi anghenion drwy ofyn cwestiynau neu feddwl am syniadau fel grŵp.

Adnoddau mae eu hangen

- TGCh
- Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd

Llafaredd ar draws y cwricwlwm

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau;

- Siarad
- Cydweithredu a thrafod.

2. ABCh

- Deall bod arian yn cael ei ennill drwy weithio ac yn gallu prynu nwyddau a gwasanaethau.

3. Dylunio a thechnoleg

- Defnyddio amrediad o ffynonellau gwybodaeth i greu syniadau am gynhyrchion.

Syniadau Mawr Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government